**Kirsty Williams AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg**
**Cabinet Secretary for Education**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref 2018 11 27 Llyth Gweinidog Add
Ein cyf/Our ref KW/02658/18

Garem Jackson
Pennaeth Addysg
Swyddfa'r Cyngor
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1SH

Cyng. Paul Rowlinson
Cadeirydd
CYSAG Gwynedd

omaibere@gwynedd.llyw.cymru

12 Rhagfyr 2018

Annwyl Garem Jackson, Cyng. Paul Rowlinson

Diolch am eich llythyr dyddiedig 27 Tachwedd 2018 ynglŷn â'ch pryderon am ddiffyg deunyddiau adolygu yn y Gymraeg ar gyfer y cwrs TGAU Astudiaethau Crefyddol newydd.

Fel y gwyddoch eisoes cyhoeddwyr yn Lloegr sydd yn cyhoeddi gwerslyfrau yn Saesneg i gefnogi cymwysterau CBAC fel menter fasnachol. Mae Llywodraeth Cymru yn dyrannu grant i CBAC er mwyn sicrhau bod fersiynau Cymraeg yn cael eu cyhoeddi. Nid oes gan Lywodraeth Cymru na CBAC unrhyw ddylanwad dros ddyddiad cyhoeddi'r adnoddau hyn nac ychwaith pa adnodd sy'n mynd i fod ar gael gan mai mater i'r cyhoeddwyr yw'r penderfyniad i fentro creu adnodd ai peidio. Fodd bynnag mae fy swyddogion a swyddogion CBAC yn gweithio'n agos gyda'r cyhoeddwyr sydd wedi mentro er mwyn sicrhau bod y deunydd ar gael mor fuan â phosib ac wedi rhoi nifer o brosesau newydd mewn lle i gyflymu'r amserlen.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Bydd y llyfr adolygu 'CBAC TGAU Astudiaethau Crefyddol Uned 2 Crefydd a Themâu Moeseg' ar gael mewn print ym mis Chwefror, tri mis wedi'r llyfr Saesneg gael ei gyhoeddi. Unwaith bydd y llyfrau ar gael bydd copïau yn cael eu dosbarthu yn rhad ac am ddim i'r ysgolion ar gyfer y cyfnod adolygu.   Mae cyhoeddwyr hefyd wedi cytuno i ryddhau ffeiliau digidol diweddaraf o'r llyfrau ar wefan ddiogel CBAC i helpu addysgu'r pwnc. Mae'r ffeiliau digidol hyn eisoes ar gael i'r athrawon ers dechrau mis Tachwedd. Yn ogystal mae CBAC wedi datblygu adnoddau digidol am ddim ar ei wefan:
http://resources.wjec.co.uk/Pages/ResourceByArgs.aspx?subId=26&lvlId=2

Rwyf wedi ymrwymo i wella'r ddarpariaeth o adnoddau perthnasol ac amserol yn y Gymraeg a'r Saesneg ar gyfer ein dysgwyr. Mae grŵp o randdeiliaid allweddol yn edrych ar ffyrdd o sicrhau hyn gan ddwyn ynghyd prif ddarparwyr yn y maes ynghyd â chonsortia addysg rhanbarthol. Fy mwriad yw sicrhau bod is adeiledd yn bodoli yng Nghymru i ddarparu adnoddau yn y ddwy iaith ar gyfer y cwricwlwm a chymwysterau yn y dyfodol. Bydd y grŵp yn gwneud argymhellion ar y ffordd ymlaen yn ystod Gwanwyn y flwyddyn nesaf.

Yn gywir

**Kirsty Williams AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg
Cabinet Secretary for Education